| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Archwilio Cymunedau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **23 Mawrth 2017** |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol:** | **Aelod Arweiniol Gofal Cymdeithasol (Gwasanaethau Oedolion a Phlant) Pennaeth Gwasanaethau Cymunedol** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Rheolwr Gwasanaethau Ardaloedd** |
| **Teitl:** | **Rheoli Cefnogi Byw'n Annibynnol (SIL), Ailalluogi a'r Gwasanaeth Gweithiwr Cymorth Iechyd a Gofal Cymdeithasol (HSCSW) yn Sir Ddinbych** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi diweddariad ar y cynnydd hyd yma i uno'r Gwasanaeth Cefnogi Byw'n Annibynnol (SIL), Ailalluogi a Gwasanaeth Gweithiwr Cymorth Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Darparu gwybodaeth ar uno'r swyddogaeth reoli yn dilyn gorffen yr ymgynghoriad gyda'r holl staff o fewn y cwmpas.

Darparu gwybodaeth hefyd ar y dangosyddion fydd yn cael eu defnyddio i fesur effeithiolrwydd y gwasanaethau wrth gyflwyno canlyniadau unwaith i'r strwythur rheoli newydd gael ei weithredu o 1 Ebrill 2017.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod Aelodau yn ystyried cynnwys yr adroddiad hwn ac yn rhoi sylwadau fel bo'n briodol

## 4. Manylion yr adroddiad

### 4.1 Cefndir

Mae'r Gwasanaethau Cefnogi Cymunedol wedi ymrwymo i ddatblygu gwasanaethau sy'n ymatebol ac yn hygyrch i ddinasyddion. Teimlwyd y byddai gosod SIL, Ailalluogi a'r Gwasanaeth Gweithiwr Cymorth Iechyd a Gofal Cymdeithasol (HSCSW) o dan strwythur rheoli newydd wedi ei gysoni yn galluogi i hyn ddigwydd.

Y bwriad yw datblygu gwasanaeth di-dor sy'n cynnig cynnydd yn y gronfa o sgiliau trwy ddod â'r holl elfennau at ei gilydd, h.y. SIL, Ailalluogi, gwasanaeth HSCSW.
Mae'r rhaglen Cefnogi Pobl yn canolbwyntio ar ymyrraeth gynnar ac atal, sy'n cyd-fynd ag ethos Ailalluogi ac egwyddorion craidd y Ddeddf Lles a Gofal Cymdeithasol.

O safbwynt y dinesydd, byddant yn gallu cael mynediad i’r lefel briodol o gefnogaeth ar gyfer eu hanghenion o un pwynt mynediad.  Bydd y gwasanaeth newydd yn canolbwyntio ar ganlyniadau ac yn cael ei gyflwyno yn unol â “beth sydd o bwys” iddynt.

Bydd y cynnig yn golygu cwtogi costau rheoli cyffredinol.

**4.2 Strwythur Rheoli Newydd**

Yn dilyn ymarfer ymgynghori cadarn, cadarnhawyd y strwythur rheoli newydd ddiwedd mis Ionawr.

Bydd y strwythur newydd yn:

- Gosod y cydlynydd /Rheolwr Tîm yn y clwstwr Un Pwynt Mynediad/camu i lawr.
- Uno rheolaeth SILS, Ailalluogi a HSCSW.
- Gosod Uwch Reolwyr ym mhob ardal leol (Gogledd a De), gyda chyfrifoldeb ar y cyd dros gronfa o staff (Ailalluogwyr, SIL a HSCSW).
- Cyflwyno ein gweledigaeth gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar gyfer gweithio ar sail clwstwr/ardal, gyda phob uwch reolwr wedi ei gysylltu â chlwstwr penodol yn yr ardal mae wedi eu lleoli, gyda Therapydd Galwedigaethol penodol o fewn y clwstwr hwnnw, i ddarparu cefnogaeth broffesiynol i’r uwch reolwr.
- Gweld ychwanegu Rheolwr Perfformiad arweiniol i alluogi’r Cydlynydd i gael y gallu i reoli swyddogaethau camu i lawr ac ymgymryd â rôl y rheolwr cofrestredig gorfodol.
- Cynhyrchu arbedion wrth ddileu un swydd gradd 9.

Mae gwaith wedi cychwyn eisoes er mwyn paratoi ar gyfer dyddiad gweithredu 1 Ebrill 2017, gyda swyddog arweiniol Rheoli Perfformiad yn cymryd yr arweiniad proffesiynol ar gyfer cefnogi uniad esmwyth dau wasanaeth ar wahân, arwain ar agweddau o ddatblygu hunaniaeth un gwasanaeth, diffinio a gweithredu systemau rheoli perfformiad a sicrhau ansawdd, sy’n cynnwys adnabod y mesurau hynny fydd yn cael eu defnyddio i feirniadu effeithiolrwydd y strwythur newydd wrth gyflwyno canlyniadau gwell i ddinasyddion.

Dangosyddion i fesur effeithiolrwydd y gwasanaeth (heb eu cadarnhau eto) fydd yn cynnwys:

- Llai o gostau cyffredinol rheoli yn dilyn symleiddio’r strwythur rheoli.
- Trwy ddarparu continwwm integredig o gefnogaeth, fydd yn gwneud y mwyaf o’r cyfle i gyflwyno gwasanaeth o ansawdd uchel a’r posibilrwydd o gyflwyno/hwyluso lefelau gorau posibl o annibyniaeth a lles.
- Bydd mwy o bwyslais ar yr agwedd ail-alluogi a bod yn rhan o’r Gwasanaethau Cefnogi Cymunedol yn golygu bydd elfen SIL o’r gwasanaeth mewn safle cryfach i ymateb i ofynion a chefnogi mwy o ddinasyddion, er enghraifft pan fydd yr amser yn iawn bydd dinasyddion yn cael eu symud ymlaen i'r gwasanaeth Cymunedol mwyaf addas, wedi ei hwyluso gan gysylltiadau agosach gyda Phwyntiau Siarad â’n Cyfeiriwr Cymunedol.
- Gwasanaeth sy’n canolbwyntio ar y canlyniadau

- Bydd gan y gwasanaeth newydd ei hunaniaeth adnabyddadwy ei hunan.
- Mwy o foddhad staff a chadw staff oherwydd bydd strwythur gyrfa clir.
- Bydd cyfuno cymysgedd o staff (ailalluogwyr/ Gweithwyr Cefnogi SILS ac Iechyd a Chymdeithasol) yn sicrhau pontio esmwyth a chyflym i'r dinesydd a'r gwasanaeth.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Bydd y prosiect hwn yn cyfrannu at gefnogi Cynllun Corfforaethol Sir Ddinbych 2012-2017 yn y meysydd canlynol:-

a. Mae pobl ddiamddiffyn yn cael eu diogelu ac yn gallu byw mor annibynnol â phosibl. Sicrhau mynediad at dai o ansawdd da. Mae'r prosiect yn chwarae rhan allweddol wrth gyfrannu at atal digartrefedd ar gyfer pobl ddiamddiffyn.

**6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Bydd arbedion yn cael eu darganfod yn 2017/18 o ganlyniad i symleiddio rheolaeth y gwasanaethau hyn.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?**

Mae'r cynigion i uno gwasanaethau SIL ac Ailalluogi wedi cael eu cynnwys yng Nghynllun Comisiynu Lleol Cefnogi Pobl drafft ar gyfer 2017/18. Cafodd Asesiad Effaith Lles ei gwblhau ar 5 Hydref 2016 (dyma'r cyntaf i gael ei wneud i'r Cynllun Comisiynu Lleol). Roedd hyn yn nodi bod y Cynllun wedi cael effaith gadarnhaol ar bump o'r saith nod lles; y ddau sy'n weddill yn niwtral. Yn nhermau cynaliadwyedd, fe sgoriodd y Cynllun 15/24 – gall hyn fod wedi'i ddylanwadu gan yr ansicrwydd ynghylch cyllideb Grant Cefnogi Pobl, fodd bynnag, byddwn yn ail-ymweld â'r Asesiad o Effaith ar Les yn dilyn unrhyw adolygiadau gan aelodau'r Pwyllgor Archwilio Partneriaethau/ Grŵp Cynllunio Cefnogi Pobl/ adborth Cabinet.

Bydd arolygiadau gwasanaeth/ rheoli contract drwy gydol y flwyddyn hefyd yn sicrhau y bydd unrhyw effaith negyddol yn cael sylw.

Roedd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb eisoes wedi'i gwblhau ar gyfer y Cynllun Comisiynu Lleol ym mis Gorffennaf 2016. Cadarnhaodd hyn fod gwasanaethau Cefnogi Pobl yn cael eu defnyddio gan bob grŵp â nodweddion a ddiogelir; bod pob ymdrech resymol wedi'i wneud i ddileu neu leihau unrhyw effaith negyddol anghymesur posibl ar y rhai sydd â nodweddion a ddiogelir, ac y bydd Cefnogi Pobl yn parhau i fonitro effaith unrhyw newid a wnaed. Ni nodwyd unrhyw effaith niweidiol yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a achoswyd gan y cynllun ar unrhyw nodwedd a ddiogelir.

Byddai'r strwythur rheoli newydd yn gweld pob un o'r tri maes gwasanaeth yn aros yn annibynnol o'i gilydd, a fyddai'n helpu o ran monitro perfformiad, atebolrwydd ariannol ac, yn bwysicaf oll, dealltwriaeth defnyddwyr gwasanaethau, ond dylai hwyluso mwy o integreiddio rhyngddynt a thrwy hynny yn darparu gwasanaeth cyffredinol o ansawdd gwell, am gost gyffredinol llai.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**

Cafodd y cynnig gwreiddiol i uno SIL ac Ailalluogi eu cynnwys o fewn Cynllun Comisiynu Lleol Cefnogi Pobl Drafft 2017/18, a gafodd gyfnod ymgynghori 8 wythnos gydag ystod o fudd-ddeiliaid. Yn ogystal, cynhaliwyd Diwrnod Cefnogi Pobl yn Neuadd y Dref, y Rhyl ar 12 Medi 2016, gyda dinasyddion a staff o amrywiaeth o asiantaethau sy'n fudd-ddeiliaid yn bresennol.

Cafodd y cynnig ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ar 27 Hydref 2017 ac fe'i gefnogwyd.

O ran ymgynghori ar strwythur rheoli newydd ar gyfer y gwasanaeth cyfunedig, ymgymerwyd ag ymarfer ymgynghori gyda Gwasanaethau SIL ac Ailalluogi a bydd-ddeiliaid allweddol.

Yn seiliedig ar yr holl adborth a deialog â staff o fewn cwmpas, cafodd y strwythur gwreiddiol ei newid. Rydym yn hyderus fod gennym y strwythur cywir i gyflwyno ein gweledigaeth i'r Gwasanaethau Cefnogi Cymunedol.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Dim angen.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Y brif risg yw i'r Grant Cefnogi Pobl gael ei leihau fwy na'r disgwyl, gan greu sefyllfa lle bydd angen gwneud gostyngiadau pellach i'r gyllideb SIL. Bydd yr adolygiad o drefniadau rheoli yn lleihau'r perygl hwn, ond efallai y bydd angen lleihau ymhellach nifer yr oriau o gefnogaeth uniongyrchol a ddarperir.

Mae risgiau ychwanegol yn parhau i'r holl gyllidebau oherwydd ansicrwydd cynlluniau ariannu'r dyfodol.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Mae erthygl 7.4.1 cyfansoddiad y Cyngor yn nodi pwerau'r Pwyllgor Archwilio mewn perthynas â datblygu ac adolygu polisïau ac mae erthygl 7.4.2 (b) yn nodi pwerau archwilio mewn perthynas â pherfformiad o ran amcanion polisïau a darparu gwasanaethau.

**12. Swyddog Cyswllt:**

Rheolwr Gwasanaethau Cefnogi Cymunedol
Ffôn: 01824 712341